Urdd

**Teitl y Swydd:** **Swyddog Ieuenctid Caerdydd a'r Fro**

**Math o gontract:** **Swydd barhaol, llawn amser (35 awr yr wythnos)**

**Graddfa:** **Graddfa 3 £21,436 (Pwynt 1) - £23,997 (Pwynt 4)**

**Lleoliad:** **Caerdydd a'r Fro**

**Amdanom ni**

Mae'r Urdd yn fudiad unigryw ac ers 1922, wedi cyflawni llawer wrth gynnig profiadau Chwaraeon, Celfyddydol, Preswyl, Dyngarol a Gwirfoddoli i fwy na 4 miliwn o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Heddiw mae gan yr Urdd 55,000 o aelodau. Mae hyn wedi eu galluogi i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau a chymdeithas, ymestyn eu gorwelion a chynyddu eu hunan hyder.

Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o ferched a dynion ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru.

Ar drothwy ein canmlwyddiant, dyma ddatgan ein huchelgais heriol i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith ein gwaith. Mae hyn yn allweddol os ydym am i'r Gymraeg fod yn ganolog ym mywydau plant a phobl ifanc Cymru, a sicrhau fod pawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg ai peidio, yn teimlo perchnogaeth ac ymdeimlad o berthyn tuag at yr iaith a'i thraddodiadau.

Am fwy o wybodaeth plîs cysylltwch gyda Sian Rogers, Cyfarwyddwr Ieuenctid a Chymuned ar SianRogers@urdd.org

Dyddiad Cau: 26.10.21
Dyddiad Cyfweld: i'w gadarnhau

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

*Mae'r Urdd yn cefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith a gweithgareddau. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir a chymuned, ac yn benodol y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymgeiswyr anabl a phobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol.*

| DISGRIFIAD SWYDD | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Swyddog Ieuenctid Caerdydd a’r Fro | **Lleoliad:** | Swyddfa Llanishien/Hyblyg Caerdydd a’r Fro |
| **Adran:** | Ieuenctid a Chymuned | **Yn gyfrifol am:** | Dim yn berthnasol |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Ieuenctid a Chymuned | **Gradd:** | Gradd 3 |

**Prif bwrpas y swydd:**

Darparu ac ymestyn, dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr, gynnig gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc yn seiliedig ac yn unol a thargedau yr Awdurdodau Lleol ( Caerdydd a Bro Morgannwg) a’r Urdd. Bydd y modd y gweithredir ein gweithgareddau yn y tymor byr yn wahanol i’r cyfnod cyn COVID-19.

Bydd cynnig gwaith ieuenctid yr Urdd yn:-

- gyfoes ac yn adlewyrchu gofynion pobl ifanc trwy wrando ar eu llais mewn byd sydd yn brysur newid ac yn dilyn y rheoliadau newydd o ganlyniad i Covid19
- cyfrannu at ddatblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc Cymru o bob cefndir cymdeithasol
- ysbrydoli pobl ifanc i ymwneud a’r Gymraeg, gan ddatblygu hyder pob person ifanc i ddefnyddio’r Gymraeg

Bydd cynnig gwaith ieuenctid yr Urdd yn cyd-asio gyda *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru* a *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion.*

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

Edrychir ar ddatblygiad y gweithgarwch isod ar lein a wyneb yn wyneb ( yn unol a chanllawiau Covid) gan gynnwys darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol a phenwythnosau.

Darparu a hwyluso cynnig gwaith ieuenctid (oed 11-25). Y cynnig i gynnwys:

1. Creu a hwyluso gweithgareddau amrywiol a digonol sydd yn denu pobl ifanc o fewn i ysgolion ac yn gymunedol.
2. Sicrhau bod targedau Awdurdodau Lleol yn cael eu cyrraedd ( targedau penodol i bob Sir).
3. Cydweithio a’r Awdurdod i ddarparu gwaith dwys i bobl ifanc i’w cefnogi o ran datblygiad personol a chymdeithasol.
4. Cynorthwyo a chefnogi pobl ifanc sydd yn aelodau o raglen Arweinyddion Ieuenctid Cenedlaethol yr Urdd.
5. Cydweithio i greu cyfleoedd i ddysgwyr y Gymraeg, fel rhan o’r rhaglen Cymraeg Pob Dydd
6. Yn lleol, hwyluso rhaglen gwirfoddolwyr cenedlaethol yr Urdd, trwy gefnogi a datblygu gwirfoddolwyr.
7. Cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ennill sgiliau ac achrediadau.  Bydd gofyn yn ôl yr angen i weinyddu elfennau o’r broses achredu.

8. Sefydlu fforwm ieuenctid i sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael lle blaenllaw wrth gynllunio at y dyfodol.
9. Cefnogi aelodau i gynrychioli'r mudiad mewn digwyddiadau.
10. Ehangu amrywiaeth sy'n ymwneud gyda'n gwasanaeth o ran LGBT, anableddau, anghenion ychwanegol a chyfleoedd i aelodau o fewn ardaloedd difreintiedig.
11. Datblygu partneriaethau a mynychu cyfarfodydd gyda chyrff a sefydliadau allanol er mwyn cynnig cyfleoedd newydd ac amrywiol yn y Gymraeg i bobl ifanc yn enwedig gyda'r Awdurdodau sydd yn ariannu y gwaith

**Gwaith Trawsadrannol**

11 Ar gais y cyfarwyddwr, cyfrannu at a gweithredu prosiectau a rhaglenni trawsadrannol.
12 Cydweithio gyda'r Gwersylloedd a hyrwyddo cyfnodau pan y bydd modd gwneud hyn yn saff.
13 Cynnig cyfleoedd a phrofiadau Awyr Agored (ar y cyd gyda'r adran AA)
14 Cynorthwyo gyda'r Swyddog Cymunedol i sicrhau rhediad yr Eisteddfodau a gweithio yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

**Gweinyddol:**

15 Dilyn trefniadau cynllunio, casglu data a mesur effaith yr Urdd gan baratoi adroddiadau a chasglu tystiolaeth i ddangos gwerth cynnig ieuenctid yr Urdd.
16 Rheoli cyllideb ar gyfer gweithgareddau'r ardal, gan gynnwys codi arian tuag at y targedau ariannol.
17 Cyfrifoldeb o farchnata effeithiol o'r gwaith ar draws nifer o gyfryngau ynghyd a sicrhau bod cynnwys ieuenctid ar wefan yr Urdd fyny i ddyddiad ac yn berthnasol
18 Dilyn a chydymffurfio at holl weithdrefnau a pholisïau'r Urdd
19 Unrhyw ddyletswyddau rhesymol fel y bydd yn ofynnol gan y Cyfarwyddwr

**Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

**Hanfodol**

i. Bod yn hyderus i gyflwyno wybodaeth o flaen grwpiau mawr ar lein ac wyneb yn wyneb
ii. Profiad o weithio gyda Phobol Ifanc
iii. Rhaid meddu ar sgiliau cyfathrebu da yn y Gymraeg a'r Saesneg.
iv. Rhaid bod ag ymwybyddiaeth o ddelfrydau ac amcanion Urdd Gobaith Cymru a gweledigaeth parthed lledaenu'r iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru.
v. Person brwdfrydig, egnïol, a chreadigol i godi diddordeb yng ngweithgareddau'r Urdd yn y rhanbarth
vi. Bod â thrwydded yrru llawn a defnydd o gar.
vii. Profiad o drefnu a chydlynu prosiectau
viii. Bod a phrofiad o ddefnyddio platfformau digidol i gynnig gweithgareddau i blant a phobl ifanc a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gweithgareddau

**Dymunol**

ix. Profiad a/neu gymhwyster mewn gwaith ieuenctid (cynigir cwrs penodol Agored Cymru Lefel 2 sydd yn arwain at gwblhau Tystysgrif Lefel 3 Ymarfer Gwaith Ieuenctid 3 onid yw'r

ymgeisydd llwyddiannus eisoes yn meddu'r cymhwyster neu gymhwyster gwaith ieuenctid uwch).

x. Bydd dealltwriaeth o hawliau pobl ifanc a'r CCUHP (UNCRC) yn ddymunol ar gyfer y swydd hon
xi. Byddai ymwybyddiaeth o gynnwys y cyhoeddiad 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.

**Gofynion deddfwriaethol yn ymwneud a'r swydd hon**

xii. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus derbyn gwiriad DBS priodol.
xiii. Yn unol â'r ddeddf bydd rhaid cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg yng Nghymru os yw / neu pan fydd yr ymgeisydd yn dal cymhwyster Gwaith Ieuenctid cydnabyddedig Lefel 2 neu uwch.

**Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:**

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:**

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd ei dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad:**

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mai 2021 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.